Llŷn
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhif 17 • 2023
www.ahne-llyn.aonb.cymru

# Llygad Llŷn

## Newyddlen AHNE Llŷn

am ddim

*Yn y rhifyn hwn*

**Ffrindiau'r AHNE**

**Yr Awyr Dywyll**

**Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

**Tan-ddaearu Ceblau Pŵer**

**Cystadleuaeth Ffotograffiaeth**









# CROESO

**Croeso i'r rifyn 17 o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn.**

Mae 2023 yn flwyddyn fawr i Benrhyn Llŷn gan fod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn ymweld â'r ardal. Nid yw'r Eisteddfod wedi ei chynnal yn yr ardal hon ers 1955 pan ddaeth i gyffiniau Pwllheli – mae llawer wedi newid ers hynny! Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn lleol i baratoi am yr Eisteddfod – bu pwyllgorau yn brysur yn trefnu digwyddiadau a chodi arian a Chyngor Gwynedd ac awdurdodau eraill yn cynllunio at y digwyddiad.

Mae digon i'w weld a'i fwynhau yma yn Llŷn a gobeithio y bydd ymwelwyr i'r Eisteddfod yn crwydro ychydig o'r maes i weld safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb a cherdded rhai o lwybrau'r ardal. Ceir map a chydig o wybodaeth yn y newyddlen hon; mae mwy ar gael ar wefannau yr AHNE, Cyngor Gwynedd, Eryri Mynyddoedd a Môr, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydliadau eraill.

Yn y rhifyn hwn o Llygad Llŷn cewch wybodaeth am brosiectau amgylcheddol, tanddaearu gwifrau trydan, dynodiad Awyr Dywyll, Ffrindiau'r AHNE, hyfforddiant sgiliau gwledig a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd mae erthyglau ar brosiect Tir a Môr, yr Argyfwng Hinsawdd, Cynllun Gweithredu Adfer Natur a gwybodaeth am y gystadleuaeth ffotograffiaeth.

Rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am Llygad Llŷn ac am waith yr Uned AHNE. Hefyd hoffem glywed eich syniadau am brosiectau newydd fyddai o les i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol neu bethau yr ydych yn meddwl sydd angen sylw. Cysylltwch ar bob cyfri ar e-bost, trwy y wefan, ar y ffôn neu drwy lythyr.

## MANYLION CYSWLLT


AHNE Llŷn
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

**Ffôn** 01758 704 155 | 01758 704 194

**E-bost** ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

**Gwefan** www.ahne-llyn-aonb.cymru

Dilynwch ni ar Instagram!
@ahnellynaonb


# CYNNWYS

**Eitemau**


Croeso a Map ........................................2,3

Awyr Dywyll ........................................4,5

Hyfforddiant Sgiliau Gwledig ....................6

Tan-ddaearu Gwifrau Trydan ....................7

Ffrindiau yr AHNE ................................8,9

Tirweddau Cynaliadwy,
Lleoedd Cynaliadwy ..............................10

Natur yn Llŷn .......................................11

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy .........12,13

Cynllun Argyfwng Hinsawdd
a Natur Cyngor Gwynedd ......................14

Tir a Môr ..............................................15

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth ................16



**CYHOEDDWYD GAN:** Uned AHNE Llŷn

**LLUN CLAWR:**
Llwybr Llaethog uwchben Ynys Enlli

**ARGRAFFWYD GAN:**
Gwasg Carreg Gwalch, Llwyndyrys a Llanrwst

**CEFNOGWYD GAN:**
Cyngor Gwynedd Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales


## TÎM AHNE LLŶN – mae tri aelod o staff yn gweithio yn y gwasanaeth:

**Swyddog AHNE Llŷn**
**Bleddyn Prys Jones**
Mae Swyddog AHNE Llŷn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar faterion craidd yr AHNE a delio gyda materion cenedlaethol.

**Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn**
**Morus Llwyd Dafydd**
Y Swyddog Prosiectau sy'n arwain ar brosiectau yr Uned AHNE, gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a hyrwyddo'r AHNE.

**Warden Cefn Gwlad AHNE**
**Kevin Roberts**
Gyda chymorth ariannol gan Llywodraeth Cymru mae'r Uned wedi penodi Warden Cefn Gwlad yn ddiweddar. Bydd y warden yn arwain ar brosiectau mynediad a natur yn yr AHNE.


Allwedd – Key
Rheilffordd – Railways
Rhwydwaith Beicio – Cycle Routes
Cenedlaethol/Rhanbarthol Llwybrau Beicio – National Regional Cycle Network
Llwbrau Arfordir Llŷn – Llŷn Coastal Path
Traethau – Beaches
Arfordir Treftadaeth – Heritage Coast
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – Areas of Outstanding Natural Beauty
SAC – SAC
Canolfan Croeso – Tourist Information Centre
CADW – Safle Hanesyddol – CADW – Historic Site
Abaty/Eglwys – Abbey/Church
Golygfan (hygyrch â char) – Viewpoint (accesible by car)
Maes Parcio – Car Park
Amgueddfa/Oriel – Museum/Gallery
Safle hynafol – Ancient site
Ymddiriedolaeth Genedlaethol – National Trust
Llanwnda
Dinas Dinlle
Llandwrog
Penygroes
Trwyn Maen Dylan
Aberdesach
Llanllyfni
Nebo
Nasareth
Capeluchaf
Clynnog-fawr
Gym Goch
Bwlch Mawr
Pant-glas
Bwlch-derwydd
Gyrn Ddu
Trefor
Dwyfach
Trwyn y Gorlech
Nany Gwytheyrn
Tre-r Ceiri
Llanaelhaearn
Mynydd Cennin
Bryncir
Hendre Cennin
Garndolbenmaen
Dolbenmaen
Llithfaen
Carreg Ddu
Pistyll
Porth Dinllaen
Llwyndyrys
Llangybi
Rhoslan
Dwyfor
Penmorfa
Tremadog
Nefyn
Morfa Nefyn
Edern
Rhos-fawr
Llanarmon
Llanystumdwy
Pentrefelin
Criccieth
Porthmadog
Pentreuchaf
Y Ffôr
Chwilog
Morfa-bychan
Borth-y-gest
Tan-y-graig
Boduan
Erch
Penarth Fawr
Black Rock Sands
Harlech Point
Porth Ysgadan
Tudweiliog
Llannor
Abererch
Dinas
Efailnewydd
Denio
Pen-y-chain
Garnfadryn
Rhyd-y-clafdy
Pwllheli
Porth Colmon
Carreg yr Imbill
Penllech
Llaniestyn
Penrhos
Y Gamlas
Llangwnnadl
Sarn Meyllteyrn
Botwnnog
Bryncroes
Nanhoron
Mynytho
Llanbedrog
Penrhyn Mawr
Ty-hen
Methlem
Rhydlios
Porth Oer
Llandegwning
Rhoshirwaun
Mynydd Rhiw
Llangian
Abersoch
St Tudwal's Road
Capel Carmel
Rhydolion
Braich Anelog
Anelog
Rhiw
Llanengan
Pwlldefaid
Llanfaelrhys
Porth Neigwl (Hells Mouth)
Bwlchtocyn
Braich y Pwll
Aberdaron
St Tudwal's Islands
Ulwchmynydd
Ynys Gwylan-fawr
Cilan Uchaf
Trwyn yr Wylfa
Pen y Cil
Trwyn Cilan
Swnt Enlli / Bardsey Sound
St Mary's Abbey
Ynys Enlli
Bardsey Island
A499
A487
A497
B4411
B4354
B4417
B4412
B4415
B4413

# Awyr Dywyll

## Llygredd Golau

Erbyn hyn mae goleuadau nos amhriodol yn cael ei adnabod fel math o lygredd amgylcheddol. Mae gormodedd o oleuadau yn effeithio ar gymeriad ardaloedd, lles pobol a bywyd gwyllt. Gall cwtogi ar oleuadau leihau y defnydd o ynni ac arbed arian.

Mae planhigion ac anifeiliaid yn dibynnu ar gylch dyddiol y ddaear i reoli arferion eu bywydau ac mae golau artiffisial yn y nos yn cael effaith negyddol ar y rhywogaethau yma. Mae'r rhywogaethau canlynol yn arbennig yn cael eu heffeithio gan oleuadau :

Ystlumod – mae ystlumod yn famaliaid y nos. Maent yn hela ac yn bwyta yn ystod y nos ac yn cysgu yn ystod y dydd. Mae golau cryf yn ystod y nos yn drysu rhai rhywogaethau o ystlumod sy'n sensitif i olau. Maent yn meddwl bod y nos yn ddydd, ac er mwyn osgoi cael eu hela, nid ydynt yn bwyta.

Tylluanod – mae tylluanod yn bwyta llygod a chnofilod sy'n effro yn y tywyllwch. Mae gan dylluanod lygaid anhygoel sy'n caniatáu iddynt weld a hela ysglyfaeth mewn tywyllwch llethol.

Adar – mae llawer o adar yn defnyddio'r haul, y lleuad a'r sêr i fynd o le i le. Gall golau artiffisial eu drysu ac amharu ar eu patrymau ymfudo.

## Dynodiad Awyr Dywyll

Ers peth amser mae Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE wedi bod yn ystyried y posibilrwydd o ymgeisio am statws Parc Awyr Dywyll ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Gwelwyd fod buddion o ran dynodiad o'r fath ond roedd rhai pryderon.

Y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) sydd yn delio gyda ceisiadau am ddynodiad Awyr Dywyll. Ni fyddai gwneud cais am ddynodiad Awyr Dywyll yn golygu fod goleuadau stryd yn cael eu diffodd ac ni fyddai angen gwario symiau mawr o arian. Yn hytrach rhoddir pwyslais gael goleuadau mwy amgylcheddol gyfeillgar, codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r awyr dywyll.

Cafodd Parc Cenedlaethol Eryri ei ddynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll nol yn 2015, ag mae'r Parc yn gweld y manteision amgylcheddol ac economaidd o wneud hynny. Dyma be oedd gan Dani Robertson, Swyddog Prosiect Nos i'w ddweud am y dynodiad–

"Mae manteision bod yn ardal sydd wedi ei dynodi'n Warchodfa Awyr Dywyll. Bydd bywyd gwyllt yr ardal yn cael ei ddiogelu, bydd ansawdd yr amgylchedd yn gwella, a bydd atyniad naturiol newydd i ddenu ymwelwyr ar gyfnodau tawel o'r flwyddyn."







## Noddfa Awyr Dywyll Enlli

Cafodd Ynys Enlli ei ddynodi'n noddfa awyr dywyll ar y 23ain o Chwefror 2023. Enlli yw'r safle cyntaf yn Ewrop i dderbyn yr ardystiad, diolch i lygredd golau isel yr ynys.

Canmolodd Ruskin Hartley, cyfarwyddwr gweithredol yr IDA, Ynys Enlli a Chymru gyfan, sy'n gweithio'n galed i gadw awyr y nos yn dywyll. “Mae Cymru’n prysur ddod yn un o’r cenhedloedd mwyaf blaenllaw o ran amddiffyn awyr dywyll fel adnodd gwerthfawr sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt,” meddai Hartley.

## Partneriaeth Nos

Mae Uned AHNE Llŷn wedi ymuno efo AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Pharc Cenedlaethol Eryri i sefydlu Partneriaeth Nos i weithredu er lles yr awyr dywyll. Yn ogystal â threfnu digwyddiadau, cynorthwyo efo ceisiadau a hyrwyddo yr Awyr Dywyll mae Prosiect Nos wedi cyhoeddi Canllawiau Arfer Da ar Oleuo. Gellir cael copi o’r Canllawiau cyflawn o’r Uned AHNE ond gwelir crynodeb o’r egwyddorion allweddol isod:

- **Oes pwrpas clir ac angenrheidiol i’r golau?** Os ddim dylid ystyried eu tynnu neu eu diffodd yn barhaol.
- **Ydi’r golau yn cael ei daflu i lle mae ei angen yn unig?** Ceisiwch anelu goleuadau tuag i lawr, neu defnyddio gorchudd.
- **Ydi’r cryfder y golau yn addas i’w pwrpas?** Defnyddiwch oleuadau digonol ond dim gormodol i’r pwrpas dan sylw.
- **A oes rheolaeth ar y golau?** Dylai bod swits, amserydd a/neu synhwyrydd i reoli goleuadau allanol bob amser.
- **Pa mor wyn/ llachar yw’r golau?** Pan yn bosib, defnyddiwch olau heb fod yn rhy wyn/ llachar gan ei fod yn llai ymwthiol a llai niweidiol i fywyd gwyllt.



# Hyfforddiant Sgiliau Gwledig



Mae'r terfynau caeau yma yn Llŷn yn rhan amlwg a phwysig o'r tirlun arbennig ac unigryw, ac yn olion o ffordd o fyw ac amaethu ers canrifoedd. Mae'r terfynau – sef waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd – hefyd yn cynnig cysgod i dda byw ac yn gynefin pwysig i bob math o greaduriaid.

Mae'r Uned AHNE, gyda chefnogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi bod yn trefnu cyrsiau hyfforddiant sgiliau gwledig am ddim ers blynyddoedd. Cyrsiau ydi'r rhain sy'n rhoi hyfforddiant ar sut i adfer a chynnal terfynau traddodiadol. Mae'r cyrsiau yn gyfle perffaith i gymdeithasu yn yr awyr iach a dysgu crefft sydd wedi siapio ein tirlun ers cannoedd o flynyddoedd!

Yn ystod haf 2022 cynhaliwyd yr hyfforddiant codi cloddiau ar fferm Porth Gwylan yn Nhudweiliog gyda Dilwyn Williams wrth y llyw. Trefnwyd yr hyfforddiant mewn cydweithrediad gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd yn berchen ar y fferm. Mae fferm Porth Gwylan uwchlaw llecyn o draeth hyfryd o'r un enw – sy'n hafan i bob math o fywyd gwyllt. Roedd yn boeth iawn ar ddyddiau yr hyfforddiant – yn agos at 30 gradd selsiws, ond roedd y cwrs yn llwyddiannus iawn a llwyddwyd i godi 40 medr o glawdd.

Hefyd yn ystod yr haf diwethaf cynhaliwyd cwrs adfer waliau cerrig yn Rhiw. Fe'u codwyd yn wreiddiol dros gannoedd, os nad filoedd o flynyddoedd yn ôl. Roedd yr hyfforddwr Dilwyn Williams, a Kevin Roberts – Warden yr AHNE yn dysgu mynychwyr y cwrs sut i adeiladu wal gerrig sych gadarn, a'r technegau oedd angen i gyflawni hynny. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i ddysgu sut i gynnal y therfynau traddodiadol yma, neu mi fydd y sgiliau yn cael eu colli.

Byddwn yn hysbysebu y cyrsiau hyfforddiant gwledig trwy Llanw Llŷn, Gwefan yr AHNE a'r cyfryngau cymdeithasol neu gallwch gofrestru eich diddordeb trwy yrru e-bost i **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**



# Tanddaearu Gwifrau Trydan

Yn 2006 lansiwyd cynllun gan OFGEM* oedd yn rhoi lwfans i'r cwmnïau cyflenwi trydan a'r Grid Cenedlaethol i dan-ddaearu gwifrau a chyfarpar trydan mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ers dechrau'r cynllun mae llawer o gynlluniau wedi eu gwireddu trwy Brydain ac mae tirlun y Parciau a'r AHNE wedi elwa yn sylweddol o'r cynllun. Yn ardal Llŷn rydym wedi bod yn cydweithio hefo Scottish Power Energy Networks (SPEN) i dan-ddaearu gwifrau trydan mewn mannau fel Cilan, Nant Gwrtheyrn a Sarn Bach.

Un o'r cynlluniau diweddaraf i'w gwblhau yn AHNE Llŷn oedd ar Foel Gron, Mynytho. Yn ogystal â bod yn yr AHNE mae'r Foel Gron yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn dir comin. Bu i'r Uned AHNE sylwi fod y gwifrau yn amlwg ar y tirwedd a trafodwyd y posibilrwydd o'u tan-ddaearu gyda Scottish Power (SP). Trwy gydweithrediad y tirfeddianwyr gwireddwyd y cynllun tan-ddaearu gan SP 2021 gan wella edrychiad y safle a'r golygfeydd o amgylch. Un agwedd ddiddorol o'r gwaith yma oedd y defnyddiwyd ceffyl i dynnu'r hen bolion o'r safle er mwyn arbed tramwyo efo peiriannau.



Rydym hefyd wedi bod yn asesu safleoedd newydd ar gyfer tan-ddaearu gwifrau gyda Scottish Power. Ar hyn o bryd mae ystyriaeth yn cael ei roi i dan-ddaearu cyfarpar trydan yn Bychestyn, Cilan, Rhiw ac Uwchmynydd.

* OFGEM: Corff llywodraethol sy'n goruchwylio marchnadoedd nwy a thrydan.



# Ffrindiau'r AHNE

Sefydlwyd grŵp Ffrindiau AHNE Llŷn nol yn 2021 er mwyn rhoi cyfle i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda gwaith ymarferol yn yr Ardal o Harddwch yma ym Mhen Llŷn. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud gwaith fel torri llystyfiant, cynnal llwybrau a chasglu sbwriel. Mae ugain o bobl wedi cofrestru ac rydym yn lwcus o gael criw da sydd yn troi fyny yn rheolaidd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r criw am eu hymdrech a'u hamser i gynnal a gwella nodweddion yr AHNE.

Yn ystod stormydd gaeaf 2022 golchwyd twmpath anferth o blastig i draeth Porth-Wen ger Porthdinllaen. Roedd y plastig yn galed ofnadwy ac yn anodd iawn i'w dorri i ddarnau llai. Gyda cymorth y gwirfoddolwyr, Clwb Golff Porthdinllaen ar Uned Forwrol llwyddwyd i glirio y cwbl. Roedd yn waith caled tu hwnt, ag amcan gyfrwyd fod oddeutu 120 o fagiau sbwriel wedi eu hel erbyn gorffen y gwaith. Oni bai am ymdrechion Ffrindiau'r AHNE i glirio y llanast yma mae'n bur debyg y byddai y plastig ar y traeth am flynyddoedd i ddod yn araf lygru'r traeth a'r môr. Mae Porth Wen yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gyda cyfoeth o fywyd gwyllt megis y brain coesgoch, piod môr a morloi. Hefyd mae'r môr gerllaw yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig.

Gwaith arall y bu ffrindiau'r AHNE yn ei wneud oedd ail-agor rhan o lwybr yn Clynnog uchaf. Roedd cwynion wedi eu derbyn am gyflwr gwael y llwybr. Gosodwyd pyst cyfeirio ar hyd y llwybr a chliriwyd brigau coed, eithin, gwair a drain oedd wedi tyfu ar draws y llwybr, hefyd ail-osodwyd giât oedd wedi torri. Roedd dau aelod o staff Uned AHNE yn a saith o wirfoddolwyr yn bresennol ar gyfer y gwaith hwn.









Ffynnon Fyw, Mynytho – bu 5 o wirfoddolwyr Ffrindiau'r AHNE wrthi yn clirio llystyfiant yn Ffynnon Fyw nôl yn mis Gorffennaf 2022. Oherwydd y gordyfiant ar y safle nid oedd posib gweld nesa peth i ddim o'r ffynnon arbennig hon. Nid yw tarddiad yr enw Ffynnon Fyw yn glir, cred rhai mai Ffynnon Duw ydoedd yn wreiddiol er nad oes tystiolaeth glir o hyn. Mae'r safle bellach wedi ei barbio a'i chlirio diolch i'r gwirfoddolwyr ac mae'r ffynnon i'w gweld yn ei holl ogoniant.

Hefyd yn ystod Gaeaf 2022 bu Ffrindiau'r AHNE wrthi'n brysur yn ail agor llwybr ar odrau Garn Boduan. Roedd y llwybr wedi cau ers blynyddoedd maith a bu raid torri tunelli o lystyfiant ar hyd y llwybr. Treuliwyd chwech diwrnod o waith yma i gyd, gyda cynnydd amlwg i'w weld ar y llwybr ar ôl pob diwrnod. Yn ogystal â'r gwirfoddolwyr cafwyd gymorth gan ddau o ffoaduriaid a oedd yn aros ar y fferm cyfagos. Bellach mae'r llwybr yn agored, yn hawdd iawn i'w droedio, gyda giatiau a dodrefn newydd wedi eu gosod ar eu hyd.

**Buddion gwirfoddoli:**

- Sialens newydd. Trwy wirfoddoli gallwch herio'ch hun i roi cynnig ar rywbeth gwahanol, cael profiad newydd ac ymarfer defnyddio'ch sgiliau ymarferol.
- Cael hwyl! Mae mwynhau a chael hwyl yn rhan o wirfoddolwyr yn ogystal â'r gwaith ei hun.
- Cyfrannu i'r gymuned. Trwy wirfoddoli gallwch deimlo'n rhan o rywbeth y tu allan bywyd arferol.
- Sgiliau newydd. Gall gwirfoddoli eich helpu i ddysgu sgiliau ac ennill profiadau newydd.

# Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy

O dan gynllun Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy mae AHNE Llŷn, a'r 4 AHNE arall yng Nghymru, wedi derbyn arian gan Lywodraeth Cymru tuag at brosiectau amgylcheddol. Mae'r grant yn benodol ar gyfer cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â dad-garboneiddio, twristiaeth cynaliadwy, adfer natur a chefnogi cymunedau/ adferiad gwyrdd. Yn dilyn cael canllawiau ar gyfer y Gronfa fe gyflwynwyd cais am nifer o brosiectau yn ardal AHNE Llŷn ar gyfer y blynyddoedd 2022-25. Y prosiectau y bu'r Uned AHNE yn gweithio arnynt yn ystod 2022-3 oedd:





## Cylchdaith Gyrn Goch

Roedd y gylchdaith hon ar gau oherwydd fod y bont dros afon Hen wedi pydru ac yn amhosibl ei chroesi. Prif ffocws y prosiect felly oedd gosod pont newydd dros yr afon er mwyn ail-agor y gylchdaith a chreu mynediad i goedwig gerllaw a thir mynediad Gyrn Goch. Gwnaed gwelliannau eraill i'r daith hefyd trwy gyfnewid camfa am giât ac ail-wynebu rhan o'r llwybr. Cylchdaith eithaf byr yw hon ond mae'n darparu cyfle i gerdded drwy amryw o dirweddau yn cynnwys coedwig a thir heb ei wella efo amryw o blanhigion gwyllt.



## Tir Comin

Prosiect cyffrous arall gan yr Uned yw asesu a gwella tiroedd comin Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho, a Horeb/Mynytho. Yn y flwyddyn ariannol 2022-23 fe wnaed arolygon ecolegol o'r tiroedd comin dan sylw. Yn y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweithredu mesurau i adfer/gwella cyflwr y tiroedd (e.e. gwella cynefinoedd, gwaredu rhywogaethau ymledol), gwella rheolaeth, lleihau risgiau tân ac ati. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at wella mynediad a dehongliad i'r tiroedd yma.

## Y Ganolfan, Llithfaen

Mae'r Ganolfan yn adeilad pwysig mhentref Llithfaen a'r ardal o amgylch. Hyd yn ddiweddar roedd cyfarfodydd a gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yma ac roedd dau fwrdd snwcer oedd yn cael eu defnyddio'n gyson. Yn ystod y cyfnod clo datblygodd problem efo pydredd sych yn Y Ganolfan a daeth yn amlwg fod angen gwelliannau sylweddol cyn y gellid ail-agor yr adeilad. Ym mlwyddyn 2022-23 bu i arian cyfalaf gyfrannu at arolwg cyflwr trylwyr o'r Ganolfan a llunio Cynllun Busnes ar gyfer y dyfodol.



## Terfynau Traddodiadol

Prosiect ar y cyd gyda ardaloedd dynodedig eraill gogledd Cymru yw hwn. Ei bwrpas yw cynnal ac adfer terfynau traddodiadol – waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd. Yn ogystal â bod yn nodweddion diddorol ar y tirlun mae'r terfynau hyn yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig. Fel rhan o'r prosiect bu Uned AHNE Llŷn yn cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri i gynnig grantiau i gynnal ac adfer terfynau traddodiadol yn ardal Madryn, Llŷn.

## Fan drydan Warden yr AHNE



Fel rhan o'r ymdrech i ddad-garboneiddio gwasanaethau'r AHNE a Chyngor Gwynedd fe ddefnyddiwyd cyfran o'r grant cyfalaf i brynu fan drydan ar gyfer Warden yr AHNE. Roedd hyn yn golygu cael gwared ar yr hen fan ddisl a lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth. Defnyddir pwyntiau sydd yn swyddfeydd Ffordd y Cob, Pwllheli i wefru'r fan ac yn achlysurol rhai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Gyda diolch i'r YG !).

## Yr Awyr Dywyll

Eto prosiect ar y cyd gyda thirluniau dynodedig eraill oedd hwn. Eisoes mae cryn waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd yr awyr dywyll trwy Bartneriaeth Nos. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar hynny ac yn cynnwys penodi ymgynghorwyr i wneud arolygol o oleuadau mewn ardaloedd ac adnabod cyfleon i osod goleuadau newydd, llai niweidiol i'r awyr dywyll. Yn dilyn hynny bydd y prosiect yn symud ymlaen i wireddu'r gwelliannau er budd yr awyr dywyll a'r amgylchedd yn gyffredinol.



# Natur yn Llŷn



Does dim amheuaeth bod Llŷn yn le anhygoel i ddod i fwynhau bod allan ym myd natur, mae'r AHNE a tîm Bioamrywiaeth y Cyngor yn gweithio yn galed i gyflwyno Cynllun Adfer Natur i Gwynedd a'r AHNE ac wedi bod yn gweithio ar sawl prosiect i wella cynefinoedd yn yr ardal.

Mae bosib bod rhai ohonoch wedi sylwi ar waith crafu a hadu ar ochor y ffordd fawr rhwng Clynnog Fawr a Llanaelhaearn ag eto rhwng Abererch a Hafan y Mor. Prosiect peilot yw hwn trwy waith y Bartneriaeth Natur i weld effaith newid y drefn rheoli ymylon ffordd a creu dolau blodau gwyllt ar ochor y ffordd.

Nid yn unig bydd hyn yn creu coridorau i fywyd gwyllt, byddant yn groeso lliwgar i ymwelwyr yn dodi'r Eisteddfod. Fel rhan o'r gwaith yma mae pob ysgol gynradd yn dalgylch yr Eisteddfod wedi cael cynnig dôl blodau gwyllt fel rhan o'r croeso blodau gwyllt yma. Mae cannoedd o anifeiliaid yn defnyddio y rhwydwaith yma ar ochor y ffordd -o beillwyr fel gwenyn a pili-pala i ddraenogod a ystlumod.



Mae'n braf cael gweld prosiectau yn gwneud newid mawr i gynefinoedd a'r anifeiliaid sydd yn dibynnu arnynt, ond weithiau mae rhaid gofyn y cwestiwn - oes posib gwneud mwy? neu be allai wneud?

Mae rhan i bawb pan mae'n dod i warchod a gwella natur, a mae prosiect difyr iawn ar dro gyda ein canolfan gofnodion leol sef Cofnod, a mae'n hawdd i chi gymryd rhan.

Gwaith Cofnod yw hel at ei gilydd yr holl gofnodion unigol o rywogaethau byd natur yn yr ardal mewn un bas data canolog fel bod gennym well gwybodaeth am yr amgylchedd rydym yn byw ynddo.

Mae Cofnod yn un o bedair Canolfan Gofnodion Leol (CGL) yng Nghymru ac mae'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol cyntaf o CGLau yn y DG. Dewiswyd ein henw er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd arsylwi a chofnodi bywyd gwyllt, a chreu 'cofnod' yw'r man cychwyn ar gyfer y holl ddata sydd gennym.

Yr unig beth sydd angen i chi wneud yw defnyddio y linc o'r QR côd yma

A defnyddio'r app i gofnodi be dachi'n ei weld wrth fynd o gwmpas, ella eich bod chi yn crwydro y llwybr arfordir a gweld bran goesgoch neu forlo -defnyddiwch yr app i gofnodi hyn, neu ella bod chi ddigon lwcus i weld dyfrgi neu ddraenog yn mynd o gwmpas eu pethau, neu bod yna robin goch yn eich gardd -mae pob un yn cyfri a cofiwch rhannu'r wybodaeth gyda Cofnod.

"y mwya o wybodaeth sydd gennym am fywyd gwyllt a natur yr ardal, y gorau fyddini'n gallu gweithio i warchod eu cynefin a creu prosiectau gwaith" meddai Lea Connelly arweinydd tîm bioamrywiaeth Gwynedd, "mae pob un cofnod yn bwysig, ac yn cyfrannu tuag at cynllun adfer natur AHNE a Gwynedd."

# Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn

## Beth yw hi?

Cronfa grant gan Lywodraeth Cymru yw'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, ac mae pob AHNE yn Nghymru yn derbyn arian ar gyfer ei ddyrannu i'r gymuned.

Mae gofyn i brosiectau llwyddiannus annog cynaladwyedd, a gwneud gwahaniaeth positif i gymunedau mewn ffyrdd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Gall unrhyw grŵp, bwyllgor, ymddiriedolaeth neu gymdeithas ymgeisio am nawdd.
Am fwy o wybodaeth am y Gronfa – cysylltwch â **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru**


## Prosiectau 2022-23

### Amgueddfa Forwrol Llŷn



Mae'r Amgueddfa Forwrol yn adnodd cymunedol pwysig iawn o fewn tref Nefyn. Mae canol y dref yn Ardal Gadwraeth ddynodedig ac mae Llwybr yr Arfordir gerllaw. Mae hi'n ganolfan ddefnyddiol i ymwelwyr a thrigolion dderbyn gwybodaeth am y diwylliant morwrol cyfoethog – ac yn cydweithio llawer gydag ysgolion a gwasanaethau lleol sy'n gweithio gyda phobl o bob oed a chefndir. Mae'n bwysig nodi hefyd mai hen eglwys Santes Fair yw'r adeilad ei hun – ac mae hwn yn enghraifft o brosiect sy'n rhan o warchod a diogelu adeilad o bwys hanesyddol. Defnyddiwyd grant y Gronfa i dalu am yr oriau ychwanegol i'r 1st mate yn yr amgueddfa. Fel canlyniad i'r trefniadau hyn roedd yn bosib i'r Amgueddfa agor fel arfer (pum diwrnod, 10-4pm) drwy'r haf. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau plant, teithiau cerdded a digwyddiadau cymdeithasol yn ystod yr amser yma. Gyda chymorth y Gronfa mi fydd swydd y 1st mate yn parhau dros y ddwy flynedd nesaf, swydd sydd yn rhoi cymorth angenrheidiol i'r Amgueddfa.





### Melin Daron

Mae adeilad trawiadol Melin Daron – wedi ei leoli yn mhentref Aberdaron o fewn Ardal Cadwraeth ddynodedig. Mae'r Felin wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd II) ac yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19fed Ganrif. Mae pwyllgor wedi ei sefydlu yn lleol er mwyn adfer yr adeilad a'r peiriannau presennol i gynhyrchu blawd Cymreig o wenith a ddaw o gnydau lleol. Bydd Y Felin yn gweithredu fel menter gymdeithasol, gan ddarparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a gwirfoddoli yn ogystal â chreu swyddi y mae eu hangen yn yr ardal.

Aeth nawdd o Gronfa 2022-23 ar gyfer adeiladu waliau'r stablau ar gefn yr adeilad, a oedd wedi chwalu. Mae waliau'r stablau y tu ôl i'r Felin, ac yn hanfodol er mwyn gallu gosod cyflenwad pŵer i'r safle ac er mwyn codi'r adeilad allanol a fydd yn gartref i'r gwasanaethau y Felin yn y pen draw. Y bwriad ydi cael pwyntiau gwefru yma hefyd a fydd yn creu incwm ei hun.

### Bws Fflecsi Llŷn

fflecsi

Mae'r bws arfordir wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn bellach, a mae'n wasanaeth sydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr a trigolion yr AHNE fwynhau arfordir trawiadol Llŷn. Yn y gorffennol roedd y bws arfordir yn gweithio fel bws gwasanaeth arferol, ond mae wedi esblygu bellach i wasanaeth Fflecsi. Mae posib archebu y bws am amser penodol ag o leoliad penodol yn Llŷn. Mae hyn yn rhoi llawer mwy o hyblygrwydd i'r defnyddwyr, ag yn cynnig gwasanaeth ehangach. Mae'n gyfle gwych i bobl sydd heb fynediad at gerbyd i ddarganfod arfordir trawiadol Llŷn, i ymweld a siop neu busnes lleol, nei i rai sydd eisiau cerdded y llwybr arfordir, a llwybrau mewndirol fel Llwybr y Morwyr – taith o Abersoch i Nefyn. O Ddrws i Ddrws sydd yn gyfrifol am redeg y gwasanaeth yma. Mae'r bws yn adnodd cymunedol ag economaidd bwysig iawn i Llŷn yn enwedig ers newid y gwasanaeth i Fflecsi. Mae'n cysylltu pentrefi gwledig lle nad oes cludiant cyhoeddus yn bodoli, a mae'n rhoi y cyfle i fusnesau gwledig gael mwy o gwsmeriaid. Mae'r bws yn darparu lefel uwch o fynediad o fewn yr AHNE, drwy sicrhau bod trigolion yn gallu goresgyn rhwystrau megis diffyg trafnidiaeth ac ynysigrwydd cymdeithasol.





## Prosiect Sied Ddu Plas Carmel

Mae pedwar rhan i safle Plas Carmel; Capel Carmel a'r Plas, y tŷ capel; Siop Plas; Y Sied Ddu. Yn Siop Plas mae'r caffi a gofod ar gyfer y gymuned ble mae modd cyfarfod a chymdeithasu, dysgu mwy am hanes y prosiect a phrynu nwyddau a chynnyrch lleol. Y Sied Ddu yw'r ganolfan ddehongli sy'n rhoi sylw i elfennau hanesyddol yr ardal. Mae'r Sied Ddu yn rhan ganolog ac allweddol o'r cynllun i gyflwyno treftadaeth y prosiect i'r cyhoedd a diben yr arddangosfa dehongli yn y Sied, ydi adrodd yr hanes a straeon mewn ffordd ddifyr i annog plant a'u teuluoedd i ymddiddori yn hanes eu hardal leol. Mae ymdrech sylweddol wedi mynd i ddatblygu a llunio arddangosfa difyr a llawn dychymyg i helpu pobl i ddysgu am eu treftadaeth.

Mae'r hanes sy'n cael sylw fel â ganlyn:

- Dic Aberdaron
- Anne Griffith, Meddyges Bryn Canaid
- Llwybr y Pererinion
- Fferm Datws Carreg Plas
- Chwarel Iasbis Carreg Plas
- Eglurhad o rai elfennau o'r map mawr sydd ar y safle
- Sgrin gyda fideos drôn sy'n dangos yr ardal leol, fideos hanes llafar

## Cae Chwarae Llithfaen





Cefnogwyd y prosiect yma er mwyn gwneud gwelliannau amgylcheddol i gae chwarae Llithfaen. Mae'n safle poblogaidd yn y pentref, a mae'r gymuned wedi gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant y prosiect, gan sefydlu pwyllgor yn benodol ar gyfer adfer y cae chwarae. Mae'r cae chwarae yn adnodd cymdeithasol allweddol i Llithfaen. Mae'n le i blant a phobl ifanc ymgynnull i chwarae, cymdeithasu a chadw'n heini. Yn sgil hynny mae'n le i'r rhieni ac aelodau teulu eraill gwrdd a chymdeithasu. Mae'r cae yn ymylu ar ffin Tafarn gymunedol y Fic, menter arall Derbyniodd Cae Chwarae Llithfaen £100,000 tuag at offer newydd gan gronfa y loteri, mae'r offer bellach wedi eu gosod ag mae'r parc yn agored i'r cyhoedd. Mi aeth nawdd y Gronfa tuag at peiriant torri gwellt wedi ei bweru gan fatri, goliau pêl-droed newydd, a chornel natur.



## Gŵyl R S Thomas

Cynhelir yr Ŵyl hon yn Aberdaron – i ddathlu gwaith y bardd RS Thomas a'i wraig Elsie Eldridge. Roedd RS Thomas yn ficer ym mhlwyf Aberdaron am flynyddoedd. Mae'r Ŵyl hon yn dathlu eu cyfraniad drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol a gwahodd siaradwyr gwadd i gynnal darlithoedd. Mae'r holl ddigwyddiadau yn cael eu cynnal o gwmpas y pentref gan gynnwys Eglwys Sant Hywyn, Ysgol Crud y Werin a Chanolfan Porth y Swnt. Bu nawdd o'r Gronfa yn cyfranu tuag at gostau llogi, costau siaradwyr gwadd ac adloniant megis côr meibion lleol a chostau marchnata. Hefyd cynhaliwyd taith gerdded arbennig yn dilyn llwybrau a ddefnyddiwyd gan RS Thomas gan drafod ei lenyddiaeth a thynnu sylw at y bywyd gwyllt arbennig wrth grwydro.





# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd





Newid hinsawdd yw un o heriau mwyaf ein hoes ac mae gofyn gweithredu yn lleol yn ogystal ag yn genedlaethol a byd-eang. Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan yn glir y bwriad i chwarae rhan yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a'r argyfwng byd natur trwy ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac mynd ati i lunio'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

Trwy weithredu'r Cynllun mae'r Cyngor yn anelu i leihau ei allyriadau carbon yn sylweddol a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei amsugno er mwyn cyrraedd y nod o fod yn garbon niwtral (sero net). Dim ond un ochr y geiniog yw ceisio lleihau cynhesu byd-eang; mae angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly'n cynnwys camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd er mwyn gwarchod a gwella byd natur a thirwedd yng Ngwynedd, er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cynllun yn rhestru nifer o brosiectau neu weithgareddau sydd eisoes wedi cychwyn, neu'n cael eu cynllunio.

Rhai cynlluniau sydd eisoes ar y gweill ydi gosod paneli solar ar doeau adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, ee. ysgolion, cartrefi preswyl a swyddfeydd. Bydd y trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn arbed carbon a chostau biliau ynni. Bwriedir hefyd gosod pwyntiau gwefru yn rhai o'r mannau hyn er mwyn cynnal fflyd o geir a faniau trydan y Cyngor. Bydd pwyntiau gwefru yn cael eu gosod mewn mannau cyhoeddus at ddefnydd trigolion ac ymwelwyr hefyd.

Mae'r gwaith yr Uned AHNE, Bioamrywiaeth a Hawliau Tramwy yn bwysig o ran gwarchod tirlun, bioamrywiaeth a llwybrau gan gyfrannu at y nod o fod yn 'ecolegol gadarnhaol'. Mae prosiectau gan fudiadau a chymunedau lleol hefyd yn cyfrannau at y nod hwn. Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth.

Dywedodd y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd, yn ei gyflwyniad i'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur:

*'Dwi'n ystyried y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn un darn mewn jig-so mawr fydd yn gymorth i ddiogelu dyfodol ein tir a'n plant. Nid yw'n ddim llai nag ein etifeddiaeth ar gyfer Gwynedd y dyfodol.'*

Er mwyn gweld y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ewch i wefan Cyngor Gwynedd – **www.gwynedd.llyw.cymru** – a chlicio ar 'Hinsawdd a Natur' ar waelod y dudalen gartref. Os hoffech gysylltu'n uniongyrchol gallwch e-bostio **bethanrichardson@gwynedd.llyw.cymru**





# Tir a Môr

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2022 bu prosiect Tir a Môr Llŷn yn cael ei weithredu gan nifer o asiantaethau amgylcheddol ac undebau amaethyddol dan arweiniad tîm bychan o swyddogion yn Adran Amgylchedd yng Nghyngor Gwynedd. Daethpwyd a dwy bartneriaeth aeddfed at ei gilydd (Partneriaeth Tirlun Llŷn a Phartneriaeth Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau) oedd wedi bod yn gyfrifol am weithredu prosiectau ar y tir a'r môr sydd yn amgylchynu Penrhyn Llŷn am bron i ugain mlynedd gyda'r bwriad o weithredu prosiect oedd yn mabwysiadu dulliau amgen i reoli cynefinoedd a rhywogaethau yn effeithiol.

Roedd y prosiect yn annog dull ecosystem o weithredu ymysg budd-ddeiliad, gan feithrin diwylliant o gyd-gynhyrchu ar bob lefel i geisio cael y canlyniadau gorau i'r amgylchedd, i'r economi ac i'r gymuned leol. Drwy weithio ar raddfa tirwedd ar draws dynodiadau a ffiniau artiffisial roedd y prosiect yn medru cyflawni llawer mwy na'r arfer mewn cyfnod gweddol fyr.

Y prif brosiectau gafodd eu gweithredu yn ystod oes prosiect Tir a Môr Llŷn oedd:

- Cynnal ac ehangu llain barhaus o gynefinoedd amrywiol o amgylch yr arfordir, gan weithio gyda ffermwyr i greu coridorau cysylltedd sy'n cydredeg â llwybr arfordir Cymru, gan wella'r cyfleoedd hamdden, a buddion iechyd i bobl leol ac ymwelwyr.
- Datblygu arferion da o ran rheoli dalgylchoedd afonydd a rheoli rhywogaethau goresgynnol, gan arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol sylweddol mewn perthynas â gwelliannau amaethyddol a mynediad.
- Ymchwilio a threialu'r cysyniad o 'dalu am ganlyniadau' gyda chymorth tair fferm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yn y pen draw oedd treialu model newydd i dalu ffermwyr i ffermio mewn ffordd oedd yn dod a buddion amgylcheddol ac economaidd i'r fferm.
- Cynnwys y gymuned ehangach yn y rhaglen waith drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn lleol gan weithio yn agos efo ysgolion Llŷn i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect.



Ceir tystiolaeth barhaus drwy gydol y prosiect bod y bartneriaeth wedi datblygu dull cydweithredol a chydweithiol o weithio ar lefel leol, gan alluogi pawb oedd wedi bod yn gysylltiedig â'r prosiect i ymgysylltu, datblygu a gweithredu cynlluniau gwaith ymarferol.

Er gwaethaf heriau Covid 19 roedd y prosiect yn lwyddiant ysgubol, ac wedi gosod cynsail ar gyfer gweithredu prosiectau sydd edrych i reoli ardaloedd arfordirol sydd yn ceisio pontio'r Tir a'r Môr, rhywbeth fydd angen sylw parhaus wrth i ni fynd i'r afael a phroblemau fydd yn codi wrth i'r hinsawdd newid o'n cwmpas.

Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar y wefan yma – **Tir a Môr | Pen Llŷn a'r Sarnau (penllynarsarnau.co.uk)**

# Cystadleuaeth Ffotograffiaeth AHNE Llŷn

2023



Unwaith eto eleni mae'r Uned Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnal cystadleuaeth ffotograffiaeth. Dyma gyfle i chi i ddangos eich gallu gyda'r camera ac ennill gwobr gwerth chweil !

Y thema ar gyfer y gystadleuaeth eleni ydi yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae ardal Llŷn frith o adeiladau, strwythurau ac olion hanesyddol ac mae'r amgylchedd hanesyddol unigryw wedi ei adnabod fel un o rinweddau'r ardal. Gall lluniau fod yn rhai o dai, capeli, eglwysi, adeiladau fferm, melinau, pontydd, cromlechi, meini hirion, tai crynion, olion chwareli. waliau cerrig ayb.

Caniateir hyd at ddau lun i bob ymgeisydd. Mae cyfle i chi ennill y gwobrau gwych canlynol: –

**1af – Tocyn anrheg o £120 i aros yn Nant Gwrtheyrn**

**2ail – Te prynhawn i ddau yn Caffi Ni, Wern, Nefyn**

**3ydd – Tocyn anrheg o £25 i siop Tonnau yn Pwllheli**

Gyrrwch eich llun(iau) dros e-bost at **ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru** gan nodi eich enw llawn ac ymhle cafodd y llun ei dynnu.

**Dyddiad Cau – Dydd Gwener, Medi 1af 2023.**

Rhowch gynnig arni a phob lwc!

## Rheolau'r Gystadleuaeth

- Caiff yr enillwyr eu dewis gan banel annibynnol a benodir gan Uned AHNE Llŷn
- Caniateir uchafswm o ddau lun gan bob unigolyn
- Ni chaniateir i unigolyn ymgeisio fwy nag unwaith
- Mae'r gystadleuaeth yn agored i bob oedran
- Nid yw'r gystadleuaeth yn agored i unrhyw un sy'n uniongyrchol gysylltiedig gyda threfnu'r gystadleuaeth
- Nid yw'r gystadleuaeth yn agored i ffotograffwyr proffesiynol
- Bydd gan yr Uned AHNE hawl i ailddefnyddio lluniau a gyflwynir, oni nodir yn wahanol gan yr ymgeisydd
- Wrth ymgeisio mae'r cystadleuwyr yn ymrwymo i reolau'r gystadleuaeth